NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Belumosudil i drin clefyd grafftiad yn erbyn lletywr cronig ar ôl 2 driniaeth systemig neu fwy mewn pobl 12 mlwydd oed neu hŷn

7 Chwefror 2024

Mae belumosudil (Rezurock) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer clefyd grafftiad yn erbyn lletywr cronig mewn pobl 12 mlwydd oed neu hŷn ar ôl 2 driniaeth systemig neu fwy. Meddyginiaethau sy'n gweithio drwy'r corff cyfan yw triniaethau systemig. Gallant gynnwys pigiadau, trwythiadau neu feddyginiaethau a gymerir drwy'r geg.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal.

## Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## Gwybodaeth a chymorth

Gall tudalen we y GIG ar drawsblaniad bôn-gelloedd fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall Anthony Nolan (0303 303 0303) roi cyngor a chymorth i chi.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

NICE National Institute for Health and Care Excellence

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9507-3